

Diwygio llywodraethu ysgolion: fframwaith rheoleiddio

**Ffurflen ymateb
i'r
ymgyngoriad**

Eich enw: Ywain Myfyr

Sefydliad (os yw'n berthnasol) UCAC

e-bost / rhif ffôn: ucac@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylech ddychwelyd eich ymateb erbyn **17 Chwefror 2017** i

Y Gangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion
Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'n cynlluniau ar gyfer cyrff llywodraethu medrus?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'n broblem fawr mewn rhai ardaloedd cael unigolion i wirfoddoli i wasanaethu ar gyrff llywodraethu ysgolion. Mae ysgolion yn gallu wynebu trafferthion cael aelodaeth lawn o'r Corff Llywodraethu oherwydd yr ymrwymiad amser sydd angen i weithredu'n effeithiol. Tra'n croesau'r awydd i wella sgiliau, mae modd sicrhau gwella gwybodaeth, sgiliau a hyder wrth sicrhau hyfforddiant perthnasol, meithrin sgiliau trwy brofiad a'r gallu i gael mynediad at gyngor arbenigol. Mae Estyn wedi cyfeirio at welliant mewn sgiliau Cyrff Llywodraethol yn dilyn cyflwyno hyfforddiant gorfodol. Efallai y byddai'n well sicrhau bod pobl yn dod yn aelodau o'r Corff Llywodraethol am y rhesymau cywir - er lles disgyblion a staff yr ysgol - a chanolbwyntio wedyn ar feithrin a gwella sgiliau.

Mae angen hefyd osgoi sefyllfa'n codi pan fyddai bod yn aelod o Gorff Llywodraethu ysgol yn dod yn rhywbeth elitaidd.

Mae llawer o Gyrff Llywodraethu yn barod yn ystyried y trawstoriad o sgiliau sydd ganddynt a ble mae'r gwagle.

Gellir annog Cyrff Llywodraethu i gynllunio ar gyfer y dyfodol (adnabod anghenion sgiliau ac ystyried hefyd ymlaen llaw pryd fydd cyfnod llywodraethwyr penodol yn dod i ben) a sicrhau mynediad hawdd at hyfforddiant.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n meddwl bod y meini prawf sgiliau wedi'u diffinio'n briodol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'n ymddangos bod pwyslais ar sgiliau byd busnes wrth ystyried profiad addas i fod yn llywodraethwr. Er bod lle i feithrin sgiliau yn ymwneud â chynllunio ariannol a chyllidebau rhaid cofio nad busnes yw ysgol; nid creu elw yw'r bwriad ond darparu gwasanaeth o'r safon uchaf o fewn y gyllideb sydd ar gael. Gellir cyfethol unigolion neu ddefnyddio'r categori aelodaeth cysylltiol i sicrhau mynediad at gyngor ariannol perthnasol (fel sydd yn digwydd yn barod mewn llawer i ysgol). O'n profiad ni, bydd gwell dealltwriaeth o faterion cyfreithiol a chyflogaeth (adnoddau dynol) yn ddefnyddiol iawn i lywodraethwyr ysgol ddeall eu cyfrifoldebau fel cyflogwyr.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid cael rhiant lywodraethwyr sydd wedi'u penodi oherwydd y sgiliau sydd ganddynt i'w cynnig?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credwn fod Cyrff Llywodraethu yn barod yn ceisio adnabod sgiliau byddai'n gymorth i'r ysgol.

Credwn fod perygl o greu anghydfod trwy gael cyfundrefn ethol a chyfundrefn penodi ochr yn ochr. Gellir greu canfyddiad bod un categori (categori etholedig) yn israddol i'r llall (gategori llywodraethwyr sydd yn cael eu penodi). Mae'n wahanol pan mae'n rhaid penodi achos methiant i ethol; mae penodi o'r cychwyn cyntaf yn creu teimlad o raniad.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid caniatáu i rieni cyn-ddisgyblion yn yr ysgol i gael eu penodi'n rhiant lywodraethwyr o dan gategori (ii) neu (iii)?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Galli hyn roi mwy o opsiynau i'r ysgol o ran pwll o bobl allai fod yn Llywodraethwyr. Mae'n bosib bod cyn-rhieni yn y gymuned dal â diddordeb mewn llwyddiant yr ysgol a heb gael cyfle i fod yn Llywodraethwyr gynt. Mae hefyd esiamplau o Lywodraethwyr sydd â phrofiad yn gorfod gadael Cyrff Llywodraethu am fod eu plant wedi gadael yr ysgol. Byddai gallu rhoi cyfle iddynt ddychwelyd yn caniatáu i'r ysgol fanteisio eto ar yr arbenigedd.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylid ei gwneud yn orfodol i nifer y rhiant lywodraethwyr etholedig fod yn llai na nifer y rhiant lywodraethwyr a benodir?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Nid ydym yn cytuno â hyn. Byddai'n tanseilio democratiaeth y broses.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno y dylid anghymhwysu rhywun rhag dod yn rhiant lywodraethwr os yw'n gweithio yn yr ysgol, ni waeth faint o oriau y mae'n eu gweithio a hyd yn oed os yw'n rhiant i ddisgybl yn yr ysgol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Dim.

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer staff lywodraethwyr, gan gynnwys cyfuno categorïau'r athrawon a'r staff lywodraethwyr?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn anghytuno â hyn.
Dylai fod dau gynrychiolydd staff (un staff addysgu ac un staff ategol). Mae ganddynt bersbectif gwahanol am yr ysgol a gwybodaeth a sgiliau gwahanol. Bydd ganddynt bethau gwahanol iawn i gyfrannu at drafodaethau'r Corff ac mae'n bwysig sicrhau bod llais i'r ddau grŵp fel rhanddeiliaid allweddol.

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer llywodraethwyr awdurdod lleol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Dim sylw.

Cwestiwn 9 – Fyddech chi'n hoffi gweld unrhyw gategori arall o unigolion yn cael eu hanghymhwyso rhag dod yn llywodraethwr ysgol awdurdod lleol, er enghraifft, aelod etholedig o awdurdod lleol.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Dim sylw.

Cwestiwn 10 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer llywodraethwyr cymunedol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Dim sylw.

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer llywodraethwyr sefydledig?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Dim sylw.

Cwestiwn 12 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer llywodraethwyr partneriaeth?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Nac yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	---------------------------------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Dim sylw.

Cwestiwn 13 - Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer llywodraethwyr cyfetholedig; a fyddant yn rhoi'r hyblygrwydd i gyrff llywodraethu sydd ei angen arnynt i lenwi unrhyw fylchau mewn sgiliau?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r awgrym y dylai Corff Llywodraethu gynnal awdit sgiliau i'w groesawu oherwydd byddai'n caniatáu cynllunio ar gyfer y dyfodol ac ar gyfer hyfforddiant /cyngor. Serch hynny, nid ydym wedi'n hargyhoeddi mai gan fyd busnes mae'r atebion i heriau byd addysg. O safbwynt ariannol a chyllidebau mae'r ddau fyd yn ymdebygu ond o safbwynt nifer o feysydd llywodraethol allweddol eraill nid oes cysylltiad nac ychwaith dealltwriaeth. Byddai gwybodaeth a sgiliau cyfreithiwr neu weithiwr adnoddau dynol yn fwy o gymorth o lawer mewn sawl ffordd. Credwn fod bod yn rhanddeiliad (yn hytrach na'n berson o'r tu allan) yn fwy tebygol o sicrhau ymrwymiad.
A oes angen aelodau cysylltiol a llywodraethwyr cyfetholedig?
Os symudir i'r cyfeiriad hwn ni ddylai fod mwy nag un llywodraethwr cyfetholedig ar y tro.

Cwestiwn 14 – Ydych chi'n cytuno y dylai llywodraethwyr cyfetholedig gyflawni'r meini prawf cyfetholedig, yn hytrach na dim ond y meini prawf sgiliau?

Cytuno	X	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	----------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Os symudir yn y cyfeiriad yma dylai fod disgwyl cyflawni'r meini prawf cyfetholedig. Oni ddylai pob Llywodraethwr fod â'r nod i ddymuno i'r ysgol sicrhau'r deilliannau gorau posib i'w disgyblion?

Cwestiwn 15 – Ydych chi'n cytuno nad oes angen cael y categorïau o lywodraethwyr cymunedol ychwanegol, llywodraethwyr nawdd a llywodraethwyr cynrychioladol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Dim sylw.

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer aelodau cysylltiol a benodir i bwyllgor(au) penodol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credwn y gallai hyn fod yn fanteisiol iawn mewn rhai amgylchiadau. Byddai'r hawl i benodi aelodau cysylltiol yn gallu bod o gymorth i gyrff llywodraethu lle mae prinder mewn arbenigedd penodol. Gan ystyried bod categori llywodraethwyr cyfetholedig a oes gwir angen aelodau cysylltiol hefyd? Pam na'r naill neu'r llall?

Cwestiwn 17 – Ydych chi'n cytuno'n gyffredinol â'n cynigion ar gyfer aelodaeth cyrff llywodraethu?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno gyda rhai elfennau yn unig ac yn bryderus iawn am eraill. Nid yw'r cynigion hyn yn symleiddio'r rheolau yn ein barn ni - mae gor-bwyslais ar rôl a lle i'r rhai and ydynt yn rhanddeiliad gyda'r potensial o randdeiliad yn fod yn y lleiafrif.

Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cytuno â'r maint lleiaf a awgrymir ar gyfer cyrff llywodraethu?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Na. Efallai byddai lleihau'r niferoedd angenrheidiol ar gyfer cyrff llywodraethu yn sicrhau y bydd ysgolion yn gallu cael aelodaeth lawn i'w cyrff yn haws ond ni fydd yn sicrhau'r niferoedd sydd angen i gyflawni holl waith y corff llywodraethu. Gwell cadw at y nifer presennol. Mae cyrff llywodraethu mwy o faint yn gallu gweithio'n effeithiol iawn trwy sefydlu Is-bwyllgorau sydd yn meithrin arbenigedd mewn meysydd penodol.

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno na ddylai fod terfyn uchaf ar faint corff llywodraethu?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Anghytuno. Os cyflwynir y gallu i apwyntio aelodau cysylltiol does dim rheswm i fod mor ben agored gyda niferoedd. Dylai fod isafswm ac uchafswm. Mae'r Ddogfen Ymgynghorol a'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at rai cyrff llywodraethu sydd yn rhy fawr i fod yn effeithiol fel y rheswm i leihau'r isafswm. Nid yw cadw'r uchafswm yn benagored felly'n gwneud synnwyr. Mae cyrff llywodraethu mwy o faint yn gallu gweithio'n effeithiol iawn trwy sefydlu Is-bwyllgorau sydd yn meithrin arbenigedd mewn meysydd penodol. Serch hynny, er mwyn sicrhau bod y niferoedd yn rhesymol dylid gosod uchafswm.

Cwestiwn 20 – Ydych chi o blaid yr hyblygrwydd i allu pennu'r nifer mwyaf a'r nifer lleiaf posibl o riant lywodraethwyr, staff lywodraethwyr a llywodraethwyr cyfetholedig (ac o bosibl llywodraethwyr sefydledig a llywodraethwyr partneriaeth, yn amodol i'r cyfyngiadau ym mharagraffau 72 a 73) ac ar yr amod bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Offeryn Llywodraethu?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Na. Nid ydym yn cytuno a'r niferoedd ar gyfer staff lywodraethwyr – dylai fod o leiaf dau.
Nid ydym yn cytuno a'r isafswm o Lywodraethwyr – mae'n rhy fach.

Ar y llaw arall os newidir y rhain, byddai'r hyblygrwydd i apwyntio'r nifer mwyaf neu leiaf yn gyffredinol o fewn ffiniau penodol yn helpu ysgolion mewn rhai ardaloedd sy'n cael anhawster i benodi llywodraethwyr.

Cwestiwn 21 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig mai'r sail ar gyfer terfynu gwasanaeth llywodraethwyr dros ben ddylai fod i ba raddau y maent yn cyflawni'r meini prawf sgiliau.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credwn y dylid ystyried presenoldeb mewn cyfarfodydd a'u hymrwymiad i'r dyletswyddau.

Cwestiwn 22 – Oes gennych chi unrhyw farn ynglŷn ag a ddylid cynnal pleidlais gudd ar gyfer terfynu gwasanaeth llywodraethwyr dros ben?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 23 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ynglŷn â hysbysu ynghylch penodiadau?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	X
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 24 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid rhoi'r gorau i'r cyfyngiad sy'n dweud na chaiff neb fod yn llywodraethwyr mewn mwy na dwy ysgol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae rhoi'r gorau i'r cyfyngiad yma yn mynd i fod o gymorth mewn rhai ysgolion sydd yn cael trafferth llenwi swyddi ar gorff llywodraethu a gall olygu bod pobl profiadol ar gael. Ar y llaw arall mae gweithredu ar gorff llywodraethu yn cymryd ymrwymiad a byddai ymrwymo i fwy na dau Gorff yn ymrwymiad sylweddol. Rhaid ystyried, hefyd, a fyddai unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau. Byddai materion cyfrinachedd, wrth gwrs, yn holl bwysig ym mhob achos.

Cwestiwn 25 – Ydych chi'n cytuno y dylid penodi llywodraethwyr ac aelodau cysylltiol am gyfnod rhwng un a phedair blynedd?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Nid yw blwyddyn yn caniatáu llawer o amser i adeiladu ar hyfforddiant a phrofiad. Bydd cyfnod o 2 - 4 yn well (ond 1-2 flynedd i ddisgybl llywodraethwr).

Cwestiwn 26 – Ydych chi'n cytuno y dylai corff llywodraethu bennu'r cyfnod gwasanaethu i bob llywodraethwr ac eithrio:

- i. llywodraethwyr ex officio
- ii llywodraethwyr sefydledig a llywodraethwyr partneriaeth lle bydd telerau ymddiriedolaeth yr ysgol neu weithred y sefydliad yn golygu na chaiff y corff llywodraethu bennu cyfnod eu gwasanaeth?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Dim sylw.

Cwestiwn 27 - Ydych chi'n poeni bod y gofyniad i bob llywodraethwr ddilyn hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr yn golygu bod y cyfnod lleiaf o un flwyddyn yn rhy fyr?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau

Mae hyfforddiant trylwyr yn hanfodol ar gyfer y rôl ac mae'r cyfnod o flwyddyn yn rhy fyr (gweler uchod) i weld ffrwyth yr hyfforddiant.

Cwestiwn 28 – Oes yna unrhyw beth yn eich poeni am gadw at broses terfynu gwasanaeth llywodraethwyr sy'n debyg i'r broses yn Rheoliadau 2005? Os oes, pam?

Sylwadau

Nag oes

Cwestiwn 29 – Oes gennych unrhyw sylwadau am y cynigion hyn ynglŷn â therfynu gwasanaeth llywodraethwyr?

Sylwadau

Mae'r cynigion i weld yn ddigon teg o safbwynt terfynu gwasanaeth llywodraethwyr.

Cwestiwn 30 – Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ethol cadeiryddion a dirprwy gadeiryddion am gyfnod sy'n para hyd at bedair blynedd?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credwn fod hyn i'w groesawu. Mae'n bwysig fod perthynas rhwng Cadeirydd a Phennaeth yn datblygu a dim ond dros gyfnod o amser gall hyn ddigwydd.

Cwestiwn 31 – Ydych chi o blaid y cynigion hyn ynghylch cyfathrebu, cofnodion a chadw cofnod electronig?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Er mwyn symud i'r cyfeiriad yma mae'n rhaid bod yn hyderus bod systemau technolegol yr ysgol yn hollol ddibynadwy a diogel a hefyd systemau technolegol y Llywodraethwyr eu hun yn hollol ddiogel a dibynadwy.

Mae'n rhaid, hefyd, sicrhau bod copi papur yn gallu bod ar gael ar gais i'r sawl sydd yn dymuno. Ni ddylai'r gost o brintio dogfennau fod yn cael ei drosglwyddo i Lywodraethwyr.

Cwestiwn 32 – Oes gennych chi farn o gwbl am y cynigion ynghylch pwyllgorau'r corff llywodraethu a'r aelodau cysylltiol?

Sylwadau

Rydym yn gefnogol i'r cynnig yma. Mae gallu dod ag arbenigedd i mewn yn ddefnyddiol er mwyn rhoi cyngor ar faterion amrywiol.

Cwestiwn 33 – Ydych chi'n cytuno y dylai pob pwyllgor disgyblu staff gynnwys person annibynnol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r syniad o gael aelod annibynnol ar bwyllgor disgyblu yn syniad da ac o'n profiad ni mae wedi gweithio'n effeithiol gan amlaf. Cytunwn â'r awgrym yma. Wedi dweud hyn, gallai dod o hyd i aelod annibynnol fod yn waith anodd mewn rhai

ardaloedd wrth ystyried daearyddiaeth Cymru. Yr Awdurdod Lleol ddylai fod yn dod o hyd i'r person annibynnol.

Ni ddylai fod ffi / taliad ar gyfer y gwaith yma – dylai'r rheoliadau neu ganllawiau statudol nodi hyn er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau. (O dderbyn arian am y gwaith gellir dadlau gallai fod wrthdaro rhwng yr angen i gwblhau'r achos yn amserol a buddiannau ariannol yr unigolyn). Dylid talu costau teithio a chynhaliaeth yn unig.

Cwestiwn 34 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i estyn y meini prawf ar gyfer ystyried bod unigolyn yn 'annibynnol'?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 35 – Ydych chi'n cytuno y dylai aelodau cysylltiol gael bod yn bobl annibynnol ar yr amod eu bod yn cyflawni'r meini prawf annibyniaeth a drafodwyd ym mharagraff 113?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Byddai'n dibynnu efallai ar faint o amser maent wedi treulio'n barod yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu – a oes modd iddynt fod yn llwyr annibynnol?
Byddai sicrhau eu bod yn gallu bod yn hollol annibynnol yn her petaent wedi gwneud llawer o waith gyda'r corff llywodraethu yn barod.

Cwestiwn 36 – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai strwythur llywodraethu ffederasiynau fod yn debyg i strwythur ysgol sengl gyfatebol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae hyn yn ymddangos synhwyrol.

Cwestiwn 37 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn i ddiwygio'r meini prawf sgiliau a'r meini prawf cyfetholedig ar gyfer ffederasiynau?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae angen bod yn ofalus gyda'r sgiliau sydd yn ddisgwyliedig beth bynnag – dylai'r pwyslais fod ar hyfforddiant a meithrin sgiliau. Gweler ein sylwadau cynt am y meini prawf a rhanddeiliaid ar gyfer ysgolion sengl. Maent yr un mor berthnasol yma.

Cwestiwn 38 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer rhiant lywodraethwyr ffederasiwn?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Yr un rhesymau ag uchod (am ysgolion sengl).

Cwestiwn 39 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn ar gyfer staff lywodraethwyr ffederasiwn?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Yr un rhesymau ag uchod (am ysgolion sengl)

Cwestiwn 40 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn ar gyfer llywodraethwyr awdurdodau lleol ffederasiwn?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 41 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn ar gyfer llywodraethwyr cymunedol ffederasiwn?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 42 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer llywodraethwyr sefydledig?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 43 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer llywodraethwyr partneriaeth?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 44 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer aelodaeth cyrff llywodraethu ffederal?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Yn yr un modd mae gennym yr un pryderon ag sydd ar gyfer ysgolion sengl.
--

Cwestiwn 45 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer aelodaeth cyrff llywodraethu ffederal?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	X	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	----------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 46 – Ydych chi o blaid cael hyblygrwydd sy'n golygu bod modd pennu'r nifer mwyaf a'r nifer lleiaf o lywodraethwyr mewn ffederasiwn, a bwrw bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Offeryn Llywodraethu?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rhydd hyn yr hyblygrwydd i'r corff llywodraethu. Rydym yn bryderus am y nifer o ran isafswm.

Cwestiwn 47 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer ffedereiddio ysgolion newydd?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 48 – Ydych chi o blaid y newidiadau hyn ar gyfer ffederasiynau?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Bu cynnydd sylweddol yn y nifer o ysgolion ffederal yng Nghymru dros y blynyddoedd diweddar. Mae'r newidiadau yma yn mynd i'w gwneud yn haws i'r ysgolion yma sicrhau bod cyrff llywodraethu llawn ganddynt ond rydym yn bryderus am nifer o faterion.

Cwestiwn 49 – Ydych chi'n cytuno â'r gwahaniaethau ar gyfer llywodraethwyr ac aelodaeth cyrff llywodraethu ysgolion dros dro?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r gwahaniaethau hyn yn synhwyrol.

Cwestiwn 50 – Ydych chi'n cytuno y dylai llywodraethwyr penodedig hefyd gyflawni'r meini prawf sgiliau (neu'r meini prawf cyfetholedig ar gyfer llywodraethwyr sy'n cael eu cyfethol)?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Fel nodwyd eisoes mewn ymateb, gall penodi llywodraethwyr fod yn anodd mewn rhai ardaloedd ac mae'n rhaid cadw hynny dan ystyriaeth. Rydym eisoes wedi nodi pryderon am y meini prawf sydd 'run mor berthnasol yma.

Cwestiwn 51 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn ynglŷn â phwyllgorau cyrff llywodraethu dros dro?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 52 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i estyn y meini prawf y mae'n rhaid i ddarpar ymchwilydd annibynnol eu cyflawni er mwyn iddo gael ei ystyried yn 'annibynnol'?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r cynnig yn synhwyrol.

Cwestiwn 53 – Ydych chi'n cytuno na ddylai pennaeth gael copi o'r adroddiad o'r ymchwiliad os yw'n dyst i'r digwyddiad honedig pan gafodd y disgybl niwed?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 54 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ynglŷn â hysbysebu swyddi gwag i benaethiaid?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn ymwybodol o enghreifftiau o benaethiaid mewn gofal yng Nghymru, swyddi nas cafwyd eu hysbysebu am amrywiol resymau. Mae angen sicrhau hysbysebu prydlon ac ymdrechion teg i lenwi'r swyddi trwy apwyntio person addas.

Cwestiwn 55 – Ydych chi o blaid y cynnig hwn i gael person annibynnol ar banelau dethol penaeithiaid a dirprwy benaeithiaid?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn mewn egwyddor â'r newid hwn. Credwn y bydd angen monitro gofalus o'r datblygiad yma.

Cwestiwn 56 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y caiff aelod cysylltiol fod yn berson annibynnol, ar yr amod ei fod yn cyflawni'r meini prawf 'annibyniaeth'?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Byddai hyn yn dibynnu ar faint o gysylltiad sydd wedi bod rhwng yr unigolyn a gwaith y Corff Llywodraethu hyd y pwynt yna.

Cwestiwn 57 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi hawliau pleidleisio i Brif Swyddog Addysg yr awdurdod lleol priodol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	X
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Gallai fod anfanteision a manteision i hyn. Mae rhoi mewnbwn i'r broses yn wahanol i gael pleidlais.

Cwestiwn 58 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i roi hawliau pleidleisio i gynrychiolwyr awdurdod esgobaethol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	X
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Gallai fod anfanteision a manteision i hyn. Mae rhoi mewnbwn i'r broses yn wahanol i gael pleidlais.

Cwestiwn 59 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer maint ac aelodaeth panelau dethol penaethiaid a dirprwy benaethiaid?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r niferoedd a argymhellir yn ymddangos yn dderbyniol.

Cwestiwn 60 – Ydych chi o blaid y cynigion hyn i roi'r gorau i banelau penodi sy'n cynnwys y corff llywodraethu cyfan a chaniatáu i banelau dethol gyfweld pob ymgeisydd addas ar gyfer swydd pennaeth?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno'n nad oes angen i gorff cyflawn gyfarfod ar gyfer gwneud penodiadau.

Cwestiwn 61 – Ydych chi o blaid ein cynigion ei bod yn rhaid hysbysu'r awdurdod lleol pan fydd staff yn cael eu hatal o'u gwaith neu'n cael eu diswyddo o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno'n llwyr. Mae'n bryder i ni fod yn rhaid ychwanegu'r cymal hwn gan y tybiem y byddai'r awdurdod lleol yn cael ei hysbysebu ymhob achos.

Cwestiwn 62 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i gryfhau rôl y corff llywodraethu?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Partneriaeth llwyddiannus yw'r ffordd o sicrhau llwyddiant ym myd addysg. Boed honno'n bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r disgybl neu'r ysgol a'r rhieni. Yn yr un modd mae nodi fod llywodraethwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phenaethiaid yn bwysig iawn ac yn cynnig ffordd ymlaen. Cydnabyddwn yn ogystal bod yn rhaid i'r llywodraethwyr fod yn atebol am berfformiad ysgol.

Cwestiwn 63 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddiwygio rôl y pennaeth?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Tra cytunwn yn llwyr â'r argymhellion, mae'r realiti yn wahanol. Credwn mai prin iawn yw'r cyrff llywodraethu sy'n llunio cyfeiriad strategol eu hysgol, ei hethos, ei nodau ei hamcanion na'i pholisïau. Y realiti yw bod hyn wedi disgyn ar y pennaeth ac y bydd gwaetha'r modd, er y newidiadau yma yn parhau i wneud hynny. O ganlyniad i hyn rhagwelwn rôl llawer mwy gweithredol i'r corff llywodraethol yn ystod arolwg gan Estyn neu ymweliad Swyddog Her consortiwm.

Cwestiwn 64 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i alluogi newid amser dechrau ac amser gorffen y diwrnod ysgol ar ddechrau unrhyw dymor ysgol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cefnogwn yr argymhelliad hwn. Mae'n synhwyrol fod ysgolion yn gallu gwneud newidiadau i'w diwrnod fel hyn dim ond bod digon o ymgynghori yn cymryd lle. Mae cwestiwn yn codi a yw 3 mis o rybudd yn ddigon o ystyried yr angen i rieni a staff newid trefniadau.

Cwestiwn 65 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddiwygio Rheoliadau Cydweithio rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012 i alluogi cadw cofnodion electronig ac i egluro dirprwyo swyddogaethau, fel y'i disgrifir ym mharagraff 5.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Dim ond os byddai modd sicrhau diogelwch a bod copi papur ar gael ar gais.

Cwestiwn 66 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddiwygio Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	X
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 67 - Ydy'r cynigion hyn ar gyfer gweithredu'r rheoliadau'n dderbyniol ac yn rhai a fyddai'n gweithio i gyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 68 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ganiatáu chwe mis arall ar gyfer cwblhau prosesau disgyblu a diswyddo staff a dethol penaethiaid a dirprwy bennaethiaid o dan y fframwaith rheoleiddio presennol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 69 – Ydych chi'n cytuno â'r costau rydym yn eu hamcangyfrif i awdurdodau lleol wrth iddynt newid Offerynnau Llywodraethu eu hysgolion, a rhoi cyngor a chymorth i gyrff llywodraethu i'w paratoi ar gyfer cael eu cyfansoddi o dan y Rheoliadau newydd?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 70 – Ydych chi'n cytuno na fydd rhagor o gostau i awdurdodau lleol yn sgil y Rheoliadau newydd?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 71 – Ydych chi'n cytuno na fydd unrhyw fuddion ariannol gwerth sôn amdanynt i awdurdodau lleol yn sgil y Rheoliadau newydd?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 72 – Ydych chi'n cytuno na fydd canolbwyntio ar lywodraethwyr medrus – a newid y gofynion cyfansoddiadol er mwyn i gyrff llywodraethu allu bod yn fwy hyblyg – yn golygu cost i gyrff llywodraethu?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 73 – Ydych chi'n cytuno â'n hamcangyfrif o'r costau i gyrff llywodraethu o gael person annibynnol i'r holl bwyllgorau disgyblu a diswyddo staff?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 74 – Ydych chi'n cytuno â'n hamcangyfrif o'r costau i gyrff llywodraethu o gael person annibynnol ar banelau dethol penaethiaid a dirprwy benaethiaid?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 75 – Ydych chi'n cytuno na fydd rhagor o gostau i awdurdodau lleol yn sgil y Rheoliadau newydd?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 76 – Ydych chi'n cytuno â'n barn am y buddion i gyrff llywodraethu?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 77 – Ydych chi'n cytuno â'n hamcangyfrif o'r costau a'r buddion i Lywodraeth Cymru ac i gyrff eraill?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 78 – Ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o effeithiau posibl y Rheoliadau newydd ar y pedwar maes a grybwyllwyd uchod?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 79 – Mae Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w weld yn Atodiad D. Byddem yn croesawu eich barn am yr Aseiad hwn ac am effaith bosibl ein holl gynigion ar:

- anabledd
- hil
- rhywedd ac ailbennu rhywedd
- oedran
- crefydd a chred a dim cred
- cyfeiriadedd rhywiol
- hawliau dynol.

Sylwadau

Mae'n bosib y byddai cyrff llywodraethol o dan yr hen drefn neu o dan y drefn bresennol sydd yn cynnwys dim ond rhanddeiliaid yn fwy pryderus am hawliau plant. Mae yna berygl y byddai cyflwyno mwy o ddylanwad unigolion o fydd busnes, nag ydynt yn rhanddeiliaid yr ysgol, yn newid y pwyslais o fewn y corff er gwaeth.

Cwestiwn 80 – Rhoddir Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad E. Byddem yn croesawu eich barn am yr Asesiad hwn ac effaith bosibl ein cynigion ar blant.

Sylwadau

Cwestiwn 81 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau am ein cynigion ar gyfer llywodraethu ysgolion a'r Rheoliadau newydd, gan gynnwys gofyn am adborth i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Blant. Os oes gennych unrhyw faterion neu sylwadau yr hoffech sôn amdanynt ar wahân i'r cwestiynau hyn, croeso ichi ddefnyddio'r lle hwn i wneud hynny.

Sylwadau

Cwestiwn 82 – Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau byddai'r polisi hwn yn cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar

- (i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau

Does dim cyfeiriad wedi bod, hyd y gwelwn ni, at faterion megis cyfieithu yn y cyfeiriadau at gyfathrebu yn y memorandwm esboniadol na'r rheoliadau, nac yng ngwaith y cyrff llywodraethol yn gyffredinol, a hawliau unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod pob cyfarfod.

Cwestiwn 83 – Beth ydych chi'n feddwl byddai'r effeithiau? Sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu effeithiau negyddol gael eu lliniaru?

Esboniwch hefyd sut y credwch y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig fel

- (i) y bydd effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- (ii) na fydd ganddo effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Sylwadau

Cwestiwn 84 – A ydych yn cytuno nad oes gan ein cynnig i adolygu ac atgyfnerthu'r fframwaith rheoleiddio llywodraethu ysgolion unrhyw oblygiadau o ran cost?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Cwestiwn 85 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae UCAC yn bryderus iawn am nifer o faterion sydd yn codi yn y Rheoliadau newydd.

Mae'r pwyslais ar sgiliau / medrau, dan ddylanwad adroddiad y CBI a'r awgrym mai gan fyd busnes mae'r atebion yn peri cryn bryder. Nid yw UCAC yn cytuno bod anghenion busnes ac anghenion byd addysg yn gyfatebol. Rydym yn synnu bod adroddiad y CBI wedi cael y fath sylw.

Mae

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: